# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 22 Ionawr 2014** |
| Amser: | **09:20 – 11:18** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_700000_22_01_2014&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **David Rees (Cadeirydd)**<br>**Leighton Andrews**<br>**Rebecca Evans**<br>**William Graham**<br>**Elin Jones**<br>**Darren Millar**<br>**Lynne Neagle**<br>**Gwyn R Price**<br>**Lindsay Whittle**<br>**Kirsty Williams** |
| Tystion: | **Karen Samuels, Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan**<br>**Joanne Ferris, Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain**<br>**Dr Richard Greville, Association of the British Pharmaceutical Industry** |
| Staff y Pwyllgor: | **Llinos Madeley (Clerc)**<br>**Philippa Watkins (Ymchwilydd)**<br>**Chloe Davies (Dirprwy Glerc)** |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Ymchwiliad i'r mynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth 1 - Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan

2.1. Ymatebodd Karen Samuels i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

2.2. Nododd Ms Samuels fod yr Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru wedi bod yn monitro'r defnydd a wneir o feddyginiaethau a arfarnwyd gan AWMSG a NICE, a chytunodd i rannu'r papur yn amlinellu canlyniadau'r monitro hwnnw gyda'r Pwyllgor.

## 3 Ymchwiliad i'r mynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth 2 - Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain

3.1. Ymatebodd y Dr Rick Greville i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

3.2. Mewn ymateb i gwestiwn y Cadeirydd mewn perthynas â phrofiad ABPI o Raglen Mabwysiadu Technolegau Iechyd NICE, dywedodd y Dr Greville nad oedd ganddo brofiad uniongyrchol o'r broses hon, ond y gallai ofyn am ragor o wybodaeth ar ran y Pwyllgor.

3.3. Yn ystod y sesiwn, cytunodd y Dr Richard Greville i ddarparu'r wybodaeth ychwanegol a ganlyn:

- copi o'r adroddiad a gomisiynwyd yn ddiweddar gan ABPI (o Brifysgol De Cymru) ynghylch y rhwystrau lleol i fabwysiadu meddyginiaethau a arfarnwyd, a fydd ar gael erbyn y Pasg 2014;
- copi o'r adroddiad sy'n cael ei lunio gan y Swyddfa Economeg Iechyd, a fydd ar gael erbyn y Pasg 2014, a fydd yn edrych ar rwystrau i fabwysiadu meddyginiaethau a arfarnwyd sy'n codi yn benodol o ganlyniad i heriau cynllunio ac edrych tua'r dyfodol;
- enghreifftiau'n ymwneud â defnyddio, neu ddiffyg defnyddio, meddyginiaethau a gymeradwywyd yng Nghymru, i gynnwys ystadegau sy'n dangos safle Cymru o gymharu â gwledydd eraill y DU.

## 4 Papurau i'w nodi

4.1. Nododd y Pwyllgor y papurau.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd ar gyfer eitem 6 ar agenda heddiw ac o’r cyfarfod fore 30 Ionawr 2014

5.1. Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 6 Ystyried cynllun gwaith y Pwyllgor o ran yr ymchwiliad i argaeledd gwasanaethau bariatrig

6.1. Cytunodd y Pwyllgor i gynnal dau ymweliad allanol ar gyfer yr ymchwiliad i argaeledd gwasanaethau bariatrig: i Brifysgol Abertawe ac Ysbyty Treforys ar 13 Chwefror, ac i sesiwn grŵp ffocws yng Nghasnewydd ar 12 Mawrth. Cafodd yr holl wariant sy'n gysylltiedig â'r ddau ymweliad ei gytuno gan y Pwyllgor.